# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL

## HAF 2013

© WJEC CBAC Cyf.

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TGAU CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL**

**UNED 1**


**CYNLLUN MARCIO**

**C.1** **15 marc**

i. Llenwi grid. 1 marc yr un = **4 marc**

| | PENTREF PORTMEIRION |
|---|---|
| CYFEIRIAD | Penrhyndeudraeth / Gwynedd LL48 6ER / ger Porthmadog<br>Gogledd Cymru = 0 marc |
| RHIF FFÔN | 01766 770000 |
| E-BOST | gwesty@pentre.com |
| AMSER AGOR | 9.30/ 9.30 – 7.00 |

ii. Dewis lluniau. 1 marc yr un = **3 marc**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| | ✓ | ✓ | | ✓ |

iii. Llenwi poster 1 marc yr un = **3 marc**

- Y Carcharor / *The Prisoner*
- 1966
- Patrick McGoohan

iv. Neges e-bost **= 5 marc ( 2 + ✓ = 3)**

1) Peter Hedd Williams = 1 marc
2) ffrwythau / llysiau = 1 marc

**3 marc iaith**
1 marc am enw'r cogydd mewn brawddeg gywir
1 marc am gynnyrch y gerddi mewn brawddeg gywir
Cyfarch **neu** gloi = 1 marc

© WJEC CBAC Cyf.

**C. 2 Llenwi ffurflen** **15 marc**

**Cynnwys: 8 marc**

- Dim clod am enw
- **Cyfeiriad** – y lleoliad yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Oed**– oed mewn geiriau **(1 marc)**
- **Pen-blwydd –** dyddiad geni yn iawn ond rhaid cael y mis yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Ysgol / Gwaith –** ysgol/ ysgol uwchradd/ gwaith/ enw ysgol/ gweithle yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Hoff ffilm? –** unrhyw ffilm e.e. ffilmiau Harry Potter, Cars 2 **(1 marc)**
- **Pam ydych chi eisiau ymaelodi â'r clwb ffilmiau? –** unrhyw reswm synhwyrol e.e. achos rydw i'n hoffi gwylio ffilmiau, achos does dim sinema yn yr ardal **(1 marc)**
- **Ydych chi'n aelod o unrhyw glwb arall yn yr ardal? Pa glwb? –** unrhyw ateb synhwyrol e.e. Ydw, clwb golff / Dw i'n aelod yn y gampfa / Nac ydw **(1 marc)**
  ateb negyddol arall e.e. nac ydy = 0 marc
- **Llofnod** – dim marc
- **Dyddiad** – y mis yn Gymraeg **(1 marc)**

**Mynegiant: 7 marc**

**Does dim modd gwobrwyo'r un gystrawen fwy nag unwaith.**

**2 farc** am bob brawddeg gywir / **1 marc** am ymadrodd estynedig (+ berf) / mynegi barn perthnasol (hyd at 6 marc)
**1 marc** ychwanegol posibl am iaith e.e. sillafu, geirfa berthnasol

Gwobrwyir y defnydd o frawddegau llawn ac amrywiaeth o gystrawennau wrth gyfleu'r wybodaeth berthnasol e.e. Fy hoff chwaraeon ydy ______ / Fel arfer rydw i'n hoffi ______ / Hoffwn i fod yn aelod achos ________

Gwobrwyir yn ogystal sillafu cywir a chyfathrebu ystyrlon.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Sylfaenol)**
**C.1 (Uwch)** **[20 marc]**

i. Llenwi grid – **12 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| | | |
|---|---|---|
| ENW'R GANOLFAN | Canolfan Plas Mawr | Canolfan Hafod Lwyd |
| E-BOST Y GANOLFAN | gareth.walters@plasmawr.com | w.jenks@hafodlwyd.co.uk |
| ENW'R RHEOLWR | Gareth Walters | Wiliam Jenkins |
| CHWARAEON POSIBL | merlota, seiclo, cwrs antur (unrhyw 1) | syrffio, hwylio, sgio dwr (unrhyw 1) |
| BWYD AMSER CINIO | Pitsa / sglodion | Cawl / brechdanau |
| DYDDIAD POSIBL | Hydref **3 (Rhaid cael y dyddiad)** | Medi **17 (Rhaid cael y dyddiad)** |
| PRIS | £8 / wyth punt | £10 / deg punt |

ii. Pwyntiau da / Pwyntiau positif – **4 marc**
**Derbyn unrhyw 2 bwynt o fewn yr un blwch**

| | |
|---|---|
| Canolfan Plas Mawr | • Staff profiadol<br>• Tystysgrif cymorth cyntaf gyda'r staff<br>• Dim problemau diogelwch<br>• Dewis o chwaraeon gyda'r plant<br>• Hapus i ddod i siarad gyda'r ysgol<br>• Grwpiau ysgol bob amser<br>• Cinio yn y pris<br>• Dwy bunt yn llai na Hafod Lwyd<br>(unrhyw 2 bwynt = 1 marc yr un) |
| Canolfan Hafod Lwyd | • Staff yn hapus yn gweithio gyda'r plant<br>• Pawb yn siarad Cymraeg<br>• Ffotograffydd gyda nhw<br>• Copi o'r ffotograffau am ddim<br>• Gallu talu am y bws<br>• Llawer o chwaraeon posibl<br>(unrhyw 2 bwynt = 1 marc yr un) |

**Marciau cywirdeb iaith**
Hyd at 4 marc (adran ii yn unig)
2 farc am bob brawddeg gywir
1 marc am ymadrodd yn cynnwys berf / mynegi barn perthnasol

| Cynnwys | Iaith |
|---|---|
| **4 marc** | **hyd at 4 marc** |
| **3 marc** | **hyd at 3 marc** |
| **2 farc** | **hyd at 2 farc** |
| **1 marc** | **hyd at 1 marc** |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4 (Sylfaenol) / Cwestiwn 2 (Uwch)** **[20 marc]**

**Rhan A: Cyfieithu – 10 marc** (1 marc yr un)

i. Yn Eisiau
ii. Person ifanc / pobl ifanc
iii. i weithio / gweithio mewn gwesty
iv. (bob) dydd Sadwrn
v. yn Awst / ym mis Awst
vi. 10 o'r gloch – 4 o'r gloch
vii. pum(p) punt (yr awr) / £5 yr awr
viii. Rhaid
ix. siarad Cymraeg/ siarad yn Gymraeg
x. Ffoniwch Mrs Lisa Harris/ rhif ffôn – 01288 789112

**1 marc am ddefnyddio dau air o'r canlynol:**
**Gwesty, Sadwrn, Awst, gwaith/gweithio**

**Rhan B: Ysgrifennu e-bost – 10 marc**

**Cynnwys (5 marc)**

Dylid cynnwys y canlynol:
1 marc am bob pwynt bwled

- cyflwyniad – enw a'r rheswm dros ysgrifennu
- manylion y bwcio – dyddiad, sawl noson, enw rheolwr
- cwestiwn am y gwesty
- unrhyw beth arall sy'n berthnasol e.e. cyfarwyddiadau, blaendal

1 marc am rywbeth perthnasol ychwanegol

**Mynegiant (5 marc)**

Gwobrwyir:
1) y gallu i gyfathrebu'n ystyrlon
2) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm
3) y gallu i ddefnyddio'r ferf, amser a pherson yn briodol
4) y gallu i ddefnyddio patrymau brawddegol ffurfiol
5) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrlon, llwyddiannus

5 Cyfathrebu hynod o lwyddiannus, amrywiaeth dda o gystrawennau a phatrymau brawddegol, geirfa eang, syniadau pwrpasol a diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir o amser y ferf (amser a pherson). **Rhaid cael 5 brawddeg yn cynnwys amrywiaeth o gystrawennau.**
4 Ymatebion pwrpasol a diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eithaf da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrlon a defnydd gweddol gywir o iaith.
3 Yn llwyddo i gyfathrebu ond bod camgymeriadau iaith, ond nid ydynt yn cymylu'r ystyr. Ar y cyfan, geirfa eithaf da. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod ond yn cynnwys mwyafrif y pwyntiau. **Rhaid cael 3 brawddeg yn cynnwys dau batrwm gwahanol.**
2 Ymdrech deg i ymateb i rai o'r pwyntiau. Yn llwyddo i gyfathrebu mewn mannau.
1 Ymdrech i gyfathrebu, ond geirfa gyfyngedig iawn.
0 Dim i'w wobrwyo.

**Ni ellir dyfarnu marc uwch am yr iaith na'r cynnwys.**

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Uwch)**
**Cynnwys: 24 marc**

**Cywirdeb iaith: 6 marc**

i. Llenwi cronfa-ddata = **14 marc**

| | |
|---|---|
| LLEOLIAD MAES AWYR CAERDYDD | **Caerdydd / 12 milltir o Gaerdydd / Bro Morgannwg / CF62 3BD (1 marc)** |
| E-BOST | **help@cwl.aero (1 marc)** |
| DYDDIAD AGOR Y MAES AWYR | **1942 (1 marc)** |
| PWRPAS AGOR Y MAES AWYR | **(ar gyfer peilotiaid yr) RAF (1 marc)** |
| DYDDIAD Y TEITHIAU CYHOEDDUS CYNTAF | **1952 (1 marc)** |
| MATHAU O DEITHIAU HEDDIW | **Teithiau busnes / teithiau preifat / teithiau rhyngwladol – unrhyw ddau (1 marc yr un = 2 farc)** |
| TEITHIAU DYDDIOL MAES AWYR CAERDYDD (x2) | **Sbaen / Iwerddon / Yr Iseldiroedd – unrhyw ddau (1 marc yr un = 2 farc)** |
| TEITHIAU ERAILL (x2) | **Twrci / Portiwgal / Ffrainc / Yr Alban – unrhyw ddau (1 marc yr un = 2 farc)**<br>**DERBYN TEITHIAU BUSNES/ TEITHIAU PREIFAT/ TEITHIAU RHYNGWLADOL YMA OS NAD YDYNT WEDI CYFEIRIO ATYNT YN BAROD YN RHAN 'MATHAU O DEITHIAU HEDDIW'** |
| TYSTIOLAETH Y POLISI CYMRAEG<br>Sut mae'r maes awyr yn defnyddio Cymraeg? | **Enw Cymraeg / arwyddion dwyieithog / annog staff i ddysgu (Cymraeg) / annog staff i ddefnyddio Cymraeg / hysbysebu yn Gymraeg / gwefan ddwyieithog / newid enw'r maes awyr / polisi Cymraeg newydd – unrhyw dri ffaith (1 marc yr un = 3 marc)** |

© WJEC CBAC Cyf.

ii. Nodyn at Faes Awyr Caerdydd
Cynnwys: **10 marc**

*Rhaid i chi:*

- gyfarch y maes awyr (1 marc)

helo = 0 marc
helo, John ydw i = 1 marc

- esbonio pwy ydych chi (1 marc)
- sôn am ran orau'r rhaglen "Touchdown" (1 marc am bob pwynt)

cyfeirio at naill ai gwaith elusennol, helpu'r gymuned leol, addysg neu croeso i'r bobl leol

- llongyfarch y maes awyr am y gwaith da (2 farc)

1 marc am longyfarch ac 1 marc ychwanegol am farn/ rheswm

- gofyn cwestiynau am unrhyw gynlluniau i'r dyfodol (1 marc am bob cwestiwn)
- cloi yr e-bost yn effeithiol (2 farc)

diolch am ddarllen = 1 marc
yn gywir = 1 marc
diolch a hwyl fawr = 1 marc
diolch = 0 marc
hwyl fawr = 0 marc

Iaith: **6 marc**
1 marc am bob brawddeg gywir. Mae angen amrywiaeth o batrymau. Mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn berthnasol er mwyn gwobrwyo marciau mynegiant.

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4**

**Ysgrifennu erthygl fer** **[30 marc]**

**Cynnwys: 15 marc**

Rhaid i chi:

- gyflwyno eich hunan a'ch rheswm dros ysgrifennu
- rhoi manylion profiad gwaith
- trafod gofynion y gweithleoedd
- trafod pwysigrwydd profiad gwaith
- gorffen yr erthygl yn briodol e.e. manylion cysylltu

Gwobrwyir:

- ymatebion diddorol a chymwys
- dilyniant rhesymegol a strwythur amlwg
- barn bendant a synhwyrol
- ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

- Cyflwyno'r Hunan a'r rheswm dros ysgrifennu (hyd at 2 farc)
- Rhoi manylion profiad gwaith / profiad gwaith personol (hyd at 3 farc)
- Trafod gofynion y gweithleoedd (hyd at 4 marc)
- Trafod pwysigrwydd profiad gwaith (hyd at 4 marc)
- Gorffen yr erthygl yn briodol e.e. manylion cysylltu (hyd at 2 farc)

© WJEC CBAC Cyf.

**Mynegiant: 15 marc**

Gwobrwyir:
- y gallu i gyfleu syniadau a mynegi barn yn llwyddiannus
- y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- cywirdeb ac ymdrech i gynnal cysondeb o ran amserau'r ferf
- ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b.
- ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau

| | |
|---|---|
| **13 - 15** | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Syniadau a barn aeddfed. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir. |
| **10 - 12** | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Llawer o syniadau. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| **7 - 9** | Mynegiant derbyniol ac ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac ymdrech i gyfathrebu'n ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb iaith ond peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Tueddiad i gadw at y disgwyliadwy. |
| **4 - 6** | Yn is na'r canolig – yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau a pheth anhawster wrth fynegi barn. |
| **1 – 3** | Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn. |
| **0** | Dim i'w wobrwyo. |

| CYNNWYS | MYNEGIANT |
|---|---|
| 14 - 15 | hyd at 15 marc |
| 12 - 13 | hyd at 14 marc |
| 10 - 11 | hyd at 12 marc |
| 8 - 9 | hyd at 10 marc |
| 6 - 7 | hyd at 7 marc |
| 4 - 5 | hyd at 5 marc |
| 2 - 3 | hyd at 3 marc |
| 0 - 1 | hyd at 1 marc |



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.